**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd
CF99 1SN

16 Hydref 2024

Annwyl Mark,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi 2024 am y fframwaith cydweithredol ar gyfer caffael cerbydau trydan.

Rydych chi'n cyfeirio at Nodyn Polisi Caffael Cymru Llywodraeth Cymru 07/21 sy'n hyrwyddo trefniadau caffael o fewn sector cyhoeddus Cymru sy'n helpu busnesau bach a chanolig. Mae WPPN 07/21 yn nodi na ddylai sector cyhoeddus Cymru yn eu gweithgareddau caffael ofyn am gael gweld mwy na dwy flynedd o gyfrifon wedi'u harchwilio, a dylent fod yn barod i dderbyn gwybodaeth arall gan fusnesau mwy newydd. Bydd hyn yn adlewyrchu canllawiau a pholisi caffael Llywodraeth y DU. Mae hefyd yn arfer caffael safonol ar draws y sector cyhoeddus. Mae PPN 03/24 Llywodraeth y DU yn darparu canllawiau statudol ar yr Holiadur Dethol Safonol (SQ) sy'n sail i holl brosesau caffael Llywodraeth Cymru i brofi a yw ceisydd yn addas i ymgymryd â chontract. O fewn PPN 03/24, y prawf safonol i brofi cryfder economaidd ac ariannol bidiwr yw'r gofyn am dystiolaeth dwy flynedd o gyfrifon neu wybodaeth arall os nad oes ganddo gyfrifon.

Mae PPN 03/24 hefyd yn nodi'r meini prawf gwahardd gorfodol a dewisol y gofynnir i fidwyr eu bodloni pan fydd awdurdodau sy'n caffael yn dilyn eu prosesau diwydrwydd dyladwy ac yn cloriannu a yw bidwyr yn gymwys. Rhaid i fidwyr ymateb i'r meini prawf gorfodol a dewisol hyn ar ran eu sefydliad a'i holl bersonau ac endidau perthnasol, yn unol â rheoliad 57(2) Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (PCR) 2015. Mae hyn yn sicrhau bod cyfarwyddwyr ac aelodau o fyrddau gweithredol cwmnïau yn cael eu hadolygu yn ogystal ag unrhyw endidau neu bersonau sydd â phwerau cynrychioli, penderfynu neu reoli yn y cyflenwr. Er nad oes rhaid i fidiwr roi rhestr ddiffiniadol o endidau neu bersonau y mae ei ddatganiadau yn eu cynnwys, rhaid iddo sicrhau bod ei ddatganiadau yn eirwir mewn perthynas â phawb sy'n dod o dan y rheoliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r meini prawf gorfodol a dewisol yn cwmpasu ystod o ffactorau ariannol a ddefnyddir wrth ystyried y sefydliad sy'n bidio a'i bersonau ac endidau perthnasol. Maen nhw'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, methdaliad neu ansolfedd; talu trethi; euogfarnau am droseddau ariannol; a pherfformiad trwy gontract yn y gorffennol. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn y broses hon mewn perthynas â phob caffaeliad dros £25k.

Yn y dyfodol, bydd Deddf Caffael 2023 yn dod i rym ar 24 Chwefror 2025 a bydd hynny'n newid y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn caffael. Mae'r Ddeddf yn creu trefn wahardd newydd i roi cyflenwyr ar restr gyhoeddedig o ragwaharddiadau, y mae'n rhaid ei hystyried ar gyfer pob caffaeliad perthnasol. Mae'r broses waharddiadau'n effeithio ar y sefydliad bidio ac unrhyw bobl gysylltiedig. Mae'n profi a ydyn nhw'n addas i gael contractau o dan drefn gwahardd cyflenwyr sy'n ehangach na'r PCR cyfredol (2015).

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language